

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 27 MAI 2021

COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI A GYNHALIWYD O BELL TRWY MICROSFOT TEAMS DYDD IAU, 27 MAI 2021, AM 14:00

Presennol

Y Cyngorydd G Thomas – Cadeirydd

JPD Blundell	N Clarke	SK Dendy	DK Edwards
RM Granville	A Hussain	MJ Kearns	DRW Lewis
JC Radcliffe	JC Spanswick	RME Stirman	MC Voisey
KJ Watts	RE Young		

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

RJ Collins, M Hughes a/ac CA Webster

Swyddogion:

Rhodri Davies	Rheolwr Datblygu a Rheoli Adeiladu
Gareth Denning	Arweinydd Tîm Polisi
Craig Flower	Arweinydd Tim Cymorth Thechnegol
Mark Galvin	Uwch Swyddog Gwasanaethau Democraidd - Pwyllgorau
Rod Jones	Uwch Cyfreithiwr
Richard Matthams	Arweinydd Tîm Cynllunio Datblygiadau
Robert Morgan	Uwch Swyddog Rheoli Datblygu Trafnidiaeth
Louis Pannell	Uwch Swyddog Polisi Cynllunio Strategol
Jonathan Parsons	Rheolwr Grŵp Datblygu
Michael Pitman	Swyddog Gwasanaethau Democraidd – Pwyllgorau
Adam Provoost	Uwch Swyddog Cynllunio Datblygu
Philip Thomas	Prif Swyddog Cynllunio

479. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Dim.

480. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu, dyddiedig 15 Ebrill 2021, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

481. SIARADWYR CYHOEDDUS

Nid oedd dim siaradwyr cyhoeddus.

482. TUDALEN DIWYGIADAU

PENDERFYNWYD: Bod y Cadeirydd yn derbyn Tudalen Diwygiadau'r Pwyllgor Rheoli Datblygu fel eitem frys, yn unol â Rhan 4 (paragraff 4) o Reolau Gweithdrefnau'r Cyngor, er mwyn i'r Pwyllgor allu ystyried addasiadau angenrheidiol i Adroddiad y Pwyllgor, er mwyn cymryd i ystyriaeth rai sylwadau ac adolygiadau hwyr yr oedd angen eu trafod.

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 27 MAI 2021

483. ARWEINIAD Y PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGU

PENDERFYNWYD: Nodi'r crynodeb o Arweiniad y Pwyllgor Rheoli Datblygu fel y'i cyflwynwyd yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau.

484. P/21/101/FUL - UNED 2 GARTH DRIVE, YSTAD DDIWYDIANNOL BRACLA, CF31 2AQ

PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, gyda'r Amodau sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau

CYNNIG: Trawsffurfio gofod swyddfa, nad oedd yn cael ei ddefnyddio, yn salon trin gwallt

485. P/20/373/FUL - THE RANGE, UNED 6/7 PARC BRENHINOL LLUNDAIN, WATERTON, CF31 3YN

PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, gyda'r Amodau sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau.

CYNNIG: Gosod dau gynhwysydd storio dur 2.4m x 6.1m i'w defnyddio mewn cysylltiad â'r Range.

486. P/21/150/FUL - CLWB CYMDEITHASOL PENCOED CYF., 37 HEOL YR HENDRE, PENCOED, CF35 6TB

PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, gyda'r Amodau sydd wedi eu cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau.

CYNNIG: Codi pabell fawr o flaen y clwb - bydd hon yng ngardd 1 Woodland Avenue, sydd yn eiddo i'r clwb.

487. APELIADAU

- PENDERFYNWYD: (1) Nodi'r Apeliadau a dderbyniwyd ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor fel y'u disgrifiwyd yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau.
- (2) Bod yr Arolygwr, a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr apêl ganlynol, wedi rhoi cyfarwyddyd bod i'r apêl gael ei chaniatáu yn ddarostyngedig i amodau:-

Rhif Cod. Cynnig

A/20/3264867 (1907) Cadw'r Caban Pren Dros Dro ar dir Cwmdu Lodge, Maesteg

- (3) Bod yr Arolygwr, a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr apêl ganlynol, wedi rhoi cyfarwyddyd bod i'r apêl gael ei chaniatáu a bod y Rhybudd Gorfodi i gael ei ddileu:-

- A/20/3264867 (1908) Caban Pren heb ganiatâd ar dir gerllaw Glofa Sant Ioan, Maesteg
- (4) Bod yr Arolygwr, a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr apêl ganlynol, wedi rhoi cyfarwyddyd bod i'r apêl gael ei chaniatáu yn ddarostyngedig i amodau:
- A/21/3266841 (1910) Dileu Amodau 1 a 3 o P/20/299/Ful: 10 Woodside Avenue, Litchard
- (5) Bod yr Arolygwr, a benodwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr apêl ganlynol, wedi rhoi cyfarwyddyd bod iddi gael ei gwrthod:-
- A/21/3267243 (1911) Adeiladu Un Annedd:
Tir y tu ôl i 30/32 Y Stryd Fawr, Cwm Ogwr

488. **DOGFEN YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS CYNLLUN WEDI'I ADNEUO Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD**

Cyflwynodd Rheolwr Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth (RhCSTh) adroddiad i dynnu sylw'r Pwyllgor Rheoli Datblygu at y ffaith y caiff Drafft wedi'i Adneuo y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (sydd ynghlwm fel Atodiad A i'r adroddiad) ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym Mehefin 2021 am gyfnod o 8 wythnos yn unol â'r Cytundeb Datblygu a gymeradwywyd gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru.

Dywedodd RhCSTh fod y Cabinet, ar 18 Mai 2021, wedi awdurdodi cyhoeddi Drafft wedi'i Adneuo y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym Mehefin 2021 am gyfnod o 8 wythnos yn unol â'r Cytundeb Datblygu a gymeradwywyd gan y Cyngor a Llywodraeth Cymru. Wedyn amlinellodd RhCSTh i'r aelodau y fframwaith cyfreithiol ynghylch y broses a'r cynnydd a wnaed yn arwain at y cam hwn. Eglurir manylion ei adroddiad yn y paragraffau canlynol.

Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004, yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr baratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) yn nodi ei amcanion ar gyfer datblygu a defnyddio tir ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr dros gyfnod y Cynllun hyd at 2033 a'i bolisïau ar gyfer eu gweithredu.

Paratowyd Drafft wedi'i Adneuo y Cynllun Datblygu Lleol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn sail i baratoi y Cynllun Datblygu Lleol Newydd ar gyfer 2018-2033.

Unwaith bydd wedi ei orffen a'i fabwysiadu bydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn disodli'r CDLI presennol (2006-2021) fel y Cynllun Datblygu statudol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol. Yn unol â gofynion statudol, polisi a chanllawiau bydd yn ofynnol i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd wneud y canlynol:

- sicrhau datblygiad sy'n gynaliadwy ac yn seiliedig ar systemau trafndiaeth;
- cynyddu lles a chynhyrchu lleoedd cynaliadwy drwy greu lleoedd;
- adeiladu ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a pholisïau a chanllawiau Cynllunio cenedlaethol a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ac ychwanegu gwerth iddynt;
- adlewyrchu dymuniadau lleol ar gyfer y Fwrdeistref Sirol yn seiliedig ar weledigaeth y cytunwyd arni gan y Cyngor a rhanddeiliaid eraill;

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 27 MAI 2021

- mynegi, yn nhermau'r defnydd o dir, amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a blaenoriaethau Cynllun Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Pen-y-bont ar Ogwr. Gwneir hyn yn bosibl drwy ddangos y Pum Ffordd o Weithio (cynnwys, cydweithio, integreiddio, atal a ffactorau cydbwysu tymor hir) yn natblygiad y Cynllun;
- darparu sylfaen ar gyfer penderfyniadau Rheoli Datblygu sy'n rhesymegol a chyson;
- arwain twf a newid tra'n amddiffyn amrywiaeth leol, cymeriad ac amgylcheddau sensitif;
- sicrhau bod aneddiadau yn wydn yn gymdeithasol ac yn economaidd ac yn gallu addasu i newid dros y tymor hir; a
- dangos pam, sut a ble y bydd newid yn digwydd dros gyfnod y Cynllun.

Mae Drafft wedi'i Adneuo y Cynllun Datblygu Lleol yn adeiladu ar y Strategaeth a Ffebrir, yr ymgynghorwyd yn ei chylch rhwng 30 Medi 2019 ac 8 Tachwedd 2019. Drwy wneud hynny mae'r Drafft wedi'i Adneuo y Cynllun Datblygu Lleol yn rhoi fframwaith strategol wedi ei ddiweddarau yn sail i'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd.

Rhoddir y rhesymau dros adolygu yn Adroddiad Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol a gyflwynwyd i'r Cyngor o'r blaen (ar 20 Mehefin 2018). Mae'n rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol hefyd fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn er mwyn sicrhau bod materion pwysig ynghylch defnydd tir yn cael eu canfod ac yr eir i'r afael â'r rhain yn gywir. Mae rhai o astudiaethau'r sylfaen o dystiolaeth, oedd yn sail i bolisiau'r Cynllun Datblygu Lleol presennol, bellach yn hen ac mae angen eu diweddarau a/neu eu newid am rai newydd er mwyn deall yn llawn ofynion defnydd tir y Fwrdeistref Sirol hyd at 2033.

Yn sylfaenol, bydd y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn osgoi 'Cynllunio drwy Apêl' a datblygiad ad hoc yn dod ymlaen y tu allan i system y Cynllun Datblygu a heb fod yn unol â strategaeth y Cynllun. Bydd hyn yn cryfhau fframwaith y Cyngor ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio a rhoi mwy o sicrwydd i gymunedau yn hyn o beth.

Mae Drafft wedi'i Adneuo y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys Datganiad Ysgrifenedig (Atodiad 1) a Map Cynigion (Atodiad 2). Mae'r Datganiad Ysgrifenedig yn amlinellu polisiau Cynllunio lleol, dyraniadau defnydd tir a'r cyfiawnhad cysylltiedig yn seiliedig ar dystiolaeth ategol.

Rhoddwyd trosolwg glir ar benodau'r Cynllun yn yr adroddiad.

Caiff Gweledigaeth y Cynllun Datblygu Lleol ei gwireddu drwy gyflawni 4 Amcan Strategol fydd yn seiliedig ar 35 o Amcanion Penodol. Mae'r rhain yn ceisio adlewyrchu polisi cenedlaethol sydd wedi ei ddiweddarau ynghyd â deddfwriaeth a mynd i'r afael â'r materion sy'n wynebu'r Fwrdeistref Sirol. Rhoddodd RhCSTh restr o'r rhain ac ymhelaethwyd arnynt hefyd yn yr adroddiad.

Diffiniwyd yr Amcanion Strategol i adlewyrchu materion allweddol a ganfuwyd, cydredeg â pholisi cenedlaethol a sicrhau cydbwysedd priodol rhwng gwahanol elfennau cynladwyedd.

Dyfeisiwyd yr amcanion Strategol a Phenodol i greu'r amodau cywir ar gyfer mynd i'r afael â'r deilliannau lles amrywiol o safbwynt cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Bydd yr amcanion hefyd yn ffurfio rhan o'r sail ar gyfer monitro gweithrediad y Cynllun unwaith y bydd wedi cael ei fabwysiadu a'i roi ar waith.

Nodwyd casgliad o Bolisiau Strategol yn Strategaeth a Ffebrir y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Roedd y rhain wedi cael eu haddasu, i gymryd sylwadau a dderbyniwyd i ystyriaeth, a'u hymestyn i ddarparu Fframwaith Polisi Strategol mwy cynhwysfawr.

PWYLLGOR DATBLYGIAD A RHEOLI - DYDD IAU, 27 MAI 2021

Cafodd y casgliad o 18 Polisi Strategol a ddiweddarwyd hefyd yn awr ei ategu gan 56 o Bolisiâu Rheoli Datblygu cysylltiedig, oedd yn mynd i'r afael ag amrywiaeth o faterion thematig manwl fel y darlunnir ym mharagraff 4.17 yr adroddiad.

O ran Dogfennau Ategol tynnodd Rheolwr Cynllunio Strategol a Thrafnidiaeth sylw at y ffaith fod Drafft wedi'i Adneuo y Cynllun Datblygu Lleol yn cael ei ategu gan Asesiad Safleoedd Ymgeisiol oedd wedi nodi'r safleoedd posibl oedd yn addas i'w dyrannu o fewn y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Cynhaliwyd asesiad pedwar-cam dilynol ar yr holl safleoedd ymgeisiol. I ddechrau, roedd hwn yn ystyried potensial pob safle i ategu'r Strategaeth a Ffeirir, cyn craffu ar asesiadau safle manwl (o ran dichonoldeb cyflawni, cynladwyedd ac addasrwydd) ac ymgynghori â chyrff ymgynghori penodol. Mae pedwerydd cam yr asesiad hwn wedi ceisio cael gwybodaeth ychwanegol gan hyrwyddwyr safleoedd, lle bo'n briodol, i gefnogi cynnwys safleoedd a'u dyrannu wedyn yn y Cynllun wedi'i Adneuo.

Yn unol â gofynion statudol mae casgliad o asesiadau effaith yn dylanwadu ar baratoad y Cynllun Datblygu Lleol Newydd sy'n dod i fodolaeth. Rhoddwyd manylion y rhain ym mharagraff 4.23 yr adroddiad.

Roedd yna nifer o ddogfennau technegol ategol oedd wedi cael eu cynhyrchu fel gwybodaeth ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Rhestrwyd y rhain yn Nhabl 1 ym mharagraff 4.27 yr adroddiad, ynghyd â'u swyddogaeth a'u pwrpas, a dylid eu darllen ochr yn ochr â Drafft wedi'i Adneuo y Cynllun Datblygu Lleol. Hefyd roedd copïau o'r dogfennau hyn ynghlwm fel PDFau ar ddiwedd adroddiad y Swyddog.

Wedyn cyfeiriodd RhCSTh at adran olaf yr adroddiad, oedd yn cynnwys rhai pwyntiau allweddol ychwanegol i'r Aelodau eu nodi a'r gwaith ychwanegol oedd angen ei wneud, cyn i'r CDLI fynd allan i ymgynghoriad cyhoeddus. Yn anffodus, roedd Covid-19 wedi golygu y bu oedi o ran paratoi'r CDLI Newydd diwygiedig. Câi'r CDLI ei gyflwyno i'r Cyngor llawn maes o law, yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

Anogodd Aelod y Cynghorwyr i ymgysylltu â'u hetholwyr, er mwyn iddynt fod yn ymwybodol o'r cyfnod ymgynghori pryd y gallent roi eu mewnbwn i'r CDLI, fel y gallai eu sylwadau gael eu hystyried yn ystod y cyfnod hollbwysig hwn.

Gofynnodd Aelod a oedd fersiwn 'hawdd ei darllen' o'r CDLI a'i ddogfennaeth ategol ar gael gan fod yr adroddiad a'r atodiadau oedd gerbron yr Aelodau yn gynhwysfawr iawn a heb fod yn hawdd eu darllen i'r defnyddwyr, o ran gallu cyfeirio'n hawdd at y dogfennau, i'r rheiny oedd â diddordeb yn eu darllen.

Cadarnhaodd RhCSTh fod dogfen gryno wrthi'n cael ei pharatoi gan Dîm Ymgysylltu'r Cyngor ac y câi hon ei gosod ar y wefan er budd y cyhoedd. Byddai'r dogfennau hefyd ar gael i bawb, gan gynnwys unrhyw grŵp dan anfantais, ychwanegodd. Byddai'r dogfennau i gyd hefyd ar wahân, fel y gallai'r rheiny oedd â diddordeb yn eu darllen lywio'u ffordd at y dogfennau neilltuol yr oedd ganddynt diddordeb ynddynt.

Yn olaf, cadarnhaodd RhCSTh y byddai'r Cyngor yn cael ei gynorthwyo gan Gymorth Cynllunio Cymru, er mwyn annog pobl i ymgysylltu ynghylch y CDLI Newydd a'i ddogfennaeth ategol gydag Aelodau Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr ac Aelodau Cynghorau Tref a Chymuned.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn nodi'r adroddiad ac y bydd Drafft wedi'i Adneuo y Cynllun Datblygu Lleol Newydd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym Mehefin 2021 am gyfnod o wyth wythnos.

489. **CYNNIG BOD CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR YN LLOFNODI SIARTER CREU LLEOEDD CYMRU.**

Cyflwynodd Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu adroddiad, a phwrpas hwn oedd gofyn am gefnogaeth y Pwyllgor Rheoli Datblygu i'r cynnig bod y Cyngor yn llofnodi Siarter Creu Lleoedd Cymru.

Cadarnhaodd fod creu lleoedd yn broses ragweithiol a chydweithredol o greu a rheoli lleoedd, oedd hefyd yn cefnogi polisïau cynllunio da ac effeithiol. Er y gellir ystyried mai'r Awdurdod Cynllunio Lleol yw'r prif gynigydd, mae agenda creu lleoedd yn mynd y tu hwnt i Gynllunio a swyddogaethau cysylltiedig y Cyngor ac mae iddo gysylltiadau trawsddisgyblaethol â llawer o feysydd gwasanaeth llywodraeth leol a'i phartneriaid cysylltiedig, er mwyn cyfrannu at greu lleoedd a'u rheoli'n effeithiol. Gwelir creu lleoedd fel proses allweddol i gyflawni dyletswyddau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a blaenoriaethau/strategaethau corfforaethol allweddol, gan gynnwys y Cynllun Corfforaethol a gobeithion Pen-y-bont ar Ogwr o leihau carbon erbyn 2030. Ymhellach, mae ei ofynion amlddisgyblaethol yn cyd-fynd yn dda â'r dull un Cyngor o gyflawni ei swyddogaethau.

Ychwanegodd Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu y bydd y Cyngor, wrth lofnodi Siarter Creu Lleoedd Cymru, yn dangos ei ymrwymiad i egwyddorion creu lleoedd a datblygu a gwella ei lleoedd.

Datblygwyd Siarter Creu Lleoedd Cymru, a lanswyd ym mis Medi 2020, gan Lywodraeth Cymru a Chomisiwn Dylunio Cymru mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru. Mae hon yn cynnwys rhanddeiliaid sy'n cynrychioli amrywiaeth eang o ddiddordebau a sefydliadau sy'n gweithio o fewn yr amgylchedd adeiledig a naturiol. Bwriadwyd y Siarter i adlewyrchu ymrwymiad torfol ac unigol y sefydliadau hyn i gefnogi datblygu lleoedd o ansawdd da ar draws Cymru er budd cymunedau.

Roedd cydrannau'r Siarter wedi eu crynhoi yn yr adroddiad, a fersiwn lawn ynghlwm wrtho yn Atodiad A.

Cadarnhaodd Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu fod llofnodwyr Siarter Creu Lleoedd Cymru yn cytuno i hybu'r egwyddorion wrth gynllunio, dylunio a rheoli lleoedd newydd a rhai presennol, fel y manylwyd ym mharagraff 4.3 yr adroddiad.

Byddai hyn yn gofyn am ymrwymiad i'r egwyddorion a ddangoswyd mewn rhestr bwledi ym mharagraff 4.4 yr adroddiad, fyddai'n torri ar draws amrediad eang o adrannau a swyddogaethau'r Cyngor, y mae ganddynt i gyd eu rhan i'w chwarae mewn sicrhau bod datblygiad newydd a'r seilwaith cysylltiedig yn unol ag amcanion creu lleoedd.

Byddai llofnodi Siarter Creu Lleoedd Cymru hefyd o gymorth i ddylunio datblygiadau ac egwyddorion statudol, nodau ac amcanion Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor. Câi Canllawiau Cynllunio Atodol hefyd eu cyflwyno o ganlyniad i ymrwymo i'r Siarter, ychwanegodd.

Teimlai Aelod y dylid cael, yn ogystal â hyrwyddwyr oedd yn Swyddogion, yn cefnogi Siarter Creu Lleoedd Cymru, Hyrwyddwr o blith yr Aelodau hefyd, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Cynllunio o bosibl.

PENDERFYNWYD:

- (1) Bod yr aelodau yn cymeradwyo bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn cytuno i lofnodi Siarter Creu Lleoedd Cymru.

(2) Bod Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu yn dilyn yr uchod drwy'r Bwrdd Rheoli Corfforaethol a hefyd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet a'r Cyngor i ymrwymo i'r Siarter.

490. COFNOD HYFFORDDIANT

Cyflwynodd Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu adroddiad, yn cynnwys eitemau oedd yn cynnwys y Rhaglen Hyfforddi ar gyfer yr Aelodau yn y dyfodol agos.

PENDERFYNWYD:

Nodi'r adroddiad

491. EITEMAU BRYD

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:15